Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

2015/16

# Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio

## Rhagair gan y Cadeirydd

Mae'n dda gen i gyflwyno'r trydydd adroddiad blynyddol ar gyfer Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r pwyllgor yn annibynnol o'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau a'r Prif Gwnstabl ac mae'n cynnwys aelodau sy'n medru cyflwyno amrediad eang o sgiliau a phrofiad. Gan hynny, mae'r cydbwyllgor mewn sefyllfa unigryw i ddarparu sicrwydd a chyngor ar drefniadau llywodraethu o fewn y ddau sefydliad. Fodd bynnag, cyn mynd i'r afael yn benodol â'r gwaith a gyflawnwyd gan y pwyllgor dros y 12 mis diwethaf, rhaid i mi ddiolch yn gyntaf i Alasdair Kenwright am lywio'r pwyllgor mor fedrus drwy ei raglen waith yn ystod ei ddau dymor fel Cadeirydd.

Unwaith eto, ffocws allweddol ar gyfer y pwyllgor yn ystod y cyfnod Ebrill 2015 - Mawrth 2016 oedd y rhaglen o waith archwilio mewnol barhaus. Mae'r pwyllgor wedi adolygu'r cynllun, cynnydd o ran cyflenwi ac argymhellion a oedd yn codi o amrediad o archwiliadau'n rheolaidd i sicrhau bod y gwaith yn cwmpasu meysydd allweddol y sefydliad a bod yr argymhellion yn cael eu cytuno a'u gweithredu. Drwy wneud hyn, mae'r pwyllgor wedi'i gefnogi mewn modd proffesiynol iawn gan dimoedd ariannol y partner archwilio mewnol (TIAA) a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r pwyllgor hefyd wedi bod yn gysylltiedig â'r strategaeth ariannol, a/neu wedi adolygu agweddau ohoni, gan gynnwys y polisi rheoli trysorlys a chronfeydd wrth gefn a chyfalaf, archwiliad allanol blynyddol o'r cyfrifon, y fframwaith llywodraethu corfforaethol a materion untro megis terfynu'r cytundeb menter ariannu breifat ar gyfer gorsaf heddlu Rhydaman.

Ym mis Hydref 2015, mynychodd aelodau o'r pwyllgor weithdy Cyd-bwyllgor Archwilio Cymru Gyfan a oedd yn galluogi'r rhai a oedd yn bresennol i rannu profiadau ac arfer gorau.

Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn y sector cyhoeddus yn golygu y bydd 2016/17 unwaith yn rhagor yn flwyddyn heriol ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r sefydliadau hefyd yn wynebu'r ansicrwydd ychwanegol o Gomisiynydd Heddlu a Throseddu newydd, a hynny ar adeg colli Prif Gwnstabl profiadol iawn. Er hynny, yn seiliedig ar brofiad y pwyllgor hyd yn hyn, rwy'n sicr na fydd hyn yn effeithio ar y modd adeiladol y bydd staff ar draws y ddau sefydliad yn gweithio gyda'r pwyllgor archwilio.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau pwyllgor am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad parhaus tuag at y pwyllgor archwilio.

Garwain Evans
Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Achwilio

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Heddlu•Police DYFED-POWYS
Diogelu ein Cymuned - Safeguarding our Community

Dyfed-Powys

Yn ddaearyddol, Dyfed-Powys yw'r ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cwmpasu 52% o dirwedd Cymru, sef 4,188 milltir sgwâr. Mae'n gwasanaethu Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Mae'r ardal yn bennaf wledig, gyda rhai ardaloedd o boblogaeth drefol yma ac acw. Ar hyn o bryd, mae 515,114 o drigolion yn yr ardal, neu 221,858 o gartrefi.

Ar hyn o bryd, y Prif Gwnstabl ar gyfer yr ardal yw Simon Prince. Am ragor o wybodaeth am Mr Prince, cliciwch yma.

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal yw Dafydd Llywelyn. Am ragor o wybodaeth am Mr Llywelyn, cliciwch yma.

Cliciwch yma i ddarllen mwy am flaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys.

### Yn y rhifyn hwn

Rhagair Gan y Cadeirydd ..................1
Rôl y Cyd-bwyllgor Archwilio ...........2
Aelodaeth .................................. .... 2
Prif feysydd ffocws y pwyllgor yn ystod 2015/16 ............ .............. .....2
Blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 .....3

# Rôl y Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae Pwyllgorau Archwilio yn rhan allweddol o'r broses llywodraethu corfforaethol. Maent yn darparu lefel uchel o ffocws annibynnol o ran y trefniadau adrodd, sicrhau ac archwilio sy'n sail i safonau llywodraethu ac ariannol da.

Yn ôl y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'n ofynnol bod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yn sefydlu Pwyllgor Archwilio annibynnol yn lleol. Corff cyfunol yw hwn sy'n darparu cyngor annibynnol ynghylch adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, ac adroddiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Cyd-bwyllgor Archwilio Prif Gwnstabl (PG) Dyfed-Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) Dyfed-Powys ar gael yma. Mae'r rhain yn crynhoi swyddogaethau craidd y pwyllgor a'r protocolau sydd mewn grym i'w alluogi i weithredu'n annibynnol, yn gadarn ac yn effeithiol.

# Aelodaeth

Rhaid bod gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio ddealltwriaeth o'r materion ariannol, risg a rheoli, a llywodraethu corfforaethol sy'n wynebu'r CHTh a'r PG. Rhaid bod ganddynt y gallu i herio, cwestiynu, holi'n fanwl a cheisio eglurhad gan y CHTh a'r PG fel y bo angen. Mae'r CHTh a'r PG yn fodlon bod gan y 4 aelod, sef Mr Gawain Evans (Cadeirydd), Mr Alasdair Kenwright, Mrs Ann Williams a Mr Malcolm MacDonald, y sgiliau a'r profiad perthnasol ar gyfer y rôl, ac ymroddiad tuag at sicrhau gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer Dyfed-Powys.

Mae'r CHTh a'r PG, Prif Swyddog Ariannol a Phennaeth Staff (fel Swyddog Monitro) y CHTh, a Chyfarwyddwr Cyllid y PG hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae swyddogion eraill yn bresennol i roi gwybodaeth am archwiliadau, rhaglenni gwaith, neu unrhyw faterion eraill yn ôl y gofyn. Mae aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio hefyd yn cwrdd yn breifat, heb y CHTh na'r PG, gydag archwilwyr mewnol ac allanol ddwywaith y flwyddyn.

Yn ystod cyfarfod mis Mehefin, wrth i Mr Alasdair Kenwright agosáu at ddiwedd ei ail dymor fel Cadeirydd, penodwyd Mr Gawain Evans yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.

| **Aelod** | **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | **% y cyfarfodydd a fynychwyd** |
|---|---|---|---|
| Alasdair Kenwright (Chair) | 4 | 4 | 100% |
| Gawain Evans | 4 | 3 | 75% |
| Malcolm MacDonald | 4 | 4 | 100% |
| Ann Williams | 4 | 3 | 75% |

*Tabl: Presenoldeb Aeloday yn ystod 2015/16*

# Rhaglen waith ar gyfer 2015/16

Cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Archwilio 4 tro yn ystod 2015/16. Roedd y rhaglen waith yn cynnwys y canlynol:

**Adroddiadau ariannol:** Adolygodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r datganiad o gyfrifon blynyddol ar gyfer 2014/15, ac ystyrion nhw'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn a'r Strategaeth Gyfalaf.

**Rheoliadau mewnol:** Adolygodd y Cyd-bwyllgor Archwilio Fframwaith Sicrwydd Rheoliadau Heddlu Dyfed-Powys, yn seiliedig ar waith archwilio mewnol a gyflawnwyd gan TIAA.

**Archwiliad mewnol:** Goruchwyliodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r gwaith a gynhaliwyd gan archwilwyr mewnol (TIAA), gan gynnwys adolygiadau o brosiectau trawsnewid, taliadau credydwyr, trefniadau cyflogres a phensiynau, cynllunio strategol, rheoli risg, rheoli absenoldebau, a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol, Yn ogystal, ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2016/17.

**Archwilio allanol:** Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2014/15. Trafododd yr aelodau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr amserlen ar gyfer cau cyfrifon yn gynt ar gyfer cyrff llywodraeth leol a chyrff heddlu, a'r prosesau sydd angen ar gyfer bodloni'r terfynau amser hynny.

**Llywodraethu:** Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio gofnodion cyfarfodydd chwarterol y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, a fynychir gan gynrychiolwyr y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwiliom ac mae'n ystyried y ffactorau mewnol ac allanol sy'n effeithio ar lywodraethu corfforaethol. Cymeradwyodd aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio'r Datganiadau Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer y CHTh a'r PG.

**Rheoli Risg:** Trafododd y Cyd-bwyllgor Archwilio adroddiad yr archwilwyr mewnol ar wreiddio rheoli risg, a oedd yn ystyried y trefniadau i integreiddio rheoli risg i mewn i gynllunio busnes a'r fframwaith sicrwydd rheoliadau mewnol.

**Effeithlonrwydd:** Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddiweddariad ynghylch terfynu'r cytundeb Menter Ariannu Breifat â pherchnogion masnachol Gorsaf Heddlu Rhydaman.

**AHEM:** Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Archwilio ddiweddariadau ar weithgarwch archwilio AHEM yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rhaglen PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Mynychodd Swyddogion Cyswllt AHEM gyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio fel arsylwyr, gan esbonio'u cynnydd o ran ymglymiad â Heddluoedd.

## Blaenoriaethau ar gyfer 2016/17

Mae blaenoriaeth ar gyfer y Pwyllgor yn 2016/17 yn cynnwys:

- Mwy o ffocws ar raglen waith yr Heddlu mewn ymateb i adroddiadau ac archwiliadau AHEM;
- Diweddariad ynghylch trefniadau llywodraethu corfforaethol ar ôl ethol Comisiynydd Heddlu a Throseddu newydd, ac, mewn amser, penodiad Prif Gwnstabl newydd. Bydd y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r strwythurau llywodraethu y mae'r cyfuniad newydd o gorfforaethau unigol eisiau'u gweld mewn grym yn ystod eu cyfnodau mewn swydd;
- Adolygu Cofrestri Risg yn rheolaidd;
- Adolygu argymhellion archwiliadau amlwg hwyr yn rheolaidd.

Cysylltwch a Ni

[Heddlu Dyfed-Powys]

[Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys]